Gweithgaredd 5: Cas dillad ffoadur

Amcanion dysgu
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu naratif gwahanol o ran pobl wedi'u dadleoli, ceiswyr lloches a ffoaduriaid o gwmpas y byd.
- Helpu pobl ifanc i fyfyrio ar y penderfyniadau y mae pobl sy'n cael eu gorfodi i ffoi yn eu hwynebu.
- Hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol, lles a chydsefyll ar lefel leol a chenedlaethol.

Adnoddau
- Cyflwyniad: 'Refugees: The Land of the Invisible'
- 20 dalen o bapur A5 ar gyfer pob grŵp o bum cyfranogwr (er enghraifft, 120 o daflenni ar gyfer dosbarth o 30)
- Ysgrifbinnau

Yr amser sy'n ofynnol: 55 munud
20 munud ar gyfer yr efelychiad ac 20 munud ar gyfer y drafodaeth. 10-15 munud ar gyfer y gweithgaredd opsiynol ar y diwedd.

- Gofynnwch i'r bobl ifanc edrych yn ofalus ar y llun ar Sleid 6 y cyflwyniad, ac yna gofynnwch y cwestiynau hyn iddynt:
  1. Beth y mae'r llun yn ei ddangos? Faint o bobl sydd yn y llun?
  2. Ble maent? Beth y maent yn ei wneud?

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bump. Bydd pob grŵp o bump yn ffurfio 'teulu'. Bydd yn rhaid i aelodau'r grwpiau benderfynu pa rai ohonynt fydd yn chwarae rolau'r rhieni a pha rai rolau'r plant. Bydd pob teulu yn cael set o 20 o ddalenni gwag o bapur.
- Dywedwch wrth y cyfranogwyr fod eu gwlad newydd ddechrau ymladd mewn rhyfel a bod yn rhaid iddynt ffoi. Oherwydd bod yn rhaid iddynt adael eu cartrefi, bydd yn ofynnol iddynt fynd â'r pethau hynny y bydd arnynt eu hangen fwyaf mewn lle newydd. Dim ond 20 o bethau y gall y teulu eu cymryd, un fesul pob darn A5 o bapur. Mae'n rhaid iddynt benderfynu rhyngddynt beth i'w gymryd. Dylent ysgrifennu enw pob eitem, neu dynnu llun ohoni, ar ddalen o bapur.

(10 mun)

- Pan fydd y 'teuluoedd' yn barod, dywedwch wrthynt, oherwydd prinder lle yn y car, y bydd yn rhaid iddynt adael rhai eitemau ar ôl. Gallant gadw hyd at 14 o eitemau. Mae'n rhaid i'r cyfranogwyr yn eu 'teuluoedd' benderfynu pa eitemau i'w gadael ar ôl. Dylent dynnu llun 'x' ar yr eitemau hyn a'u rhoi i'r naill ochr.

(5 mun)

-

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

- Dywedwch wrth y teuluoedd, "Gan fod llawer o bobl yn gadael eu mamwlad ar yr un pryd, mae'r ffyrdd yn llawn ac nid yw'n bosibl mynd ymhellach mewn car. Felly, bydd yn rhaid i chi barhau ar eich siwrnai ar droed, ac ni fyddwch yn gallu cario cynifer o bethau. Mae'n rhaid i chi leihau eich eitemau i chwe eitem, a chael gwared ar yr wyth arall." Unwaith eto, mae'n rhaid iddynt drafod hyn, croesi rhai eitemau allan, a'u rhoi i'r naill ochr.

(5 mun)

- Yn dilyn hyn, gwahoddwch y bobl ifanc i drafod y gweithgaredd:
  1. Beth sy'n cael ei gynnwys yn y rhestr derfynol o eitemau'r grwpiau gwahanol? A ydynt yn debyg? Pam? Pam ddim?
  2. Pam yr oeddech wedi dewis yr eitemau hyn? A oedd hi'n anodd penderfynu yn eich grwpiau ar restr gyffredin o eitemau?
  3. Beth oedd y rhesymau dros fynd â rhai pethau gyda chi? Sut y byddent yn ddefnyddiol?
  4. Pa eitemau a gafodd eu gadael ar ôl yn dilyn y rownd gyntaf? Pam?
  5. A oedd yr ail rownd yn fwy anodd na'r un gyntaf? Pam?
  6. A oedd aelodau eich teulu bob amser yn cytuno ar yr hyn a oedd i'w adael ar ôl? Am beth oedd yr anghytuno, a pham?
  7. Beth oedd y gwahaniaeth rhwng dymuniadau ac anghenion? A oedd anghenion a dymuniadau eich "teulu" chi yn wahanol i anghenion a dymuniadau "teuluoedd" eraill?

  Dylai'r drafodaeth eich arwain i fyfyrio ar y ffaith fod gan bawb, er gwaethaf eu gwahaniaethau, anghenion tebyg, a bod gan bawb yr hawl i ddiwallu eu hanghenion mwyaf sylfaenol – goroesi, datblygu a diogelwch. Yn aml, yn anffodus, mynd yn alltud yw'r unig ffordd o wneud hyn. Mae'r dewisiadau yr ydym yn eu gwneud yn debyg iawn i ddewisiadau pobl o wlad wahanol neu gefndir diwylliannol gwahanol.

(20 mun)

- Ar ddiwedd y sesiwn, er mwyn galluogi pobl ifanc i gymharu eu syniadau â realiti, gall yr athro ddangos y wefan Landed in Italy – Can refugees and migrants begin again?, sy'n cyflwyno rhai o hanesion mudwyr yn cyrraedd yr Eidal mewn cwch.

  Gall yr athro hefyd gynnwys yr erthygl hon o'r *Guardian*, sy'n dangos lluniau o'r eiddo yr oedd ffoaduriaid o Syria wedi eu cludo gyda nhw: “Passport, lifejacket, lemons: What Syrian refugees pack for the crossing to Europe” www.theguardian.com/world/ng-interactive/2015/sep/04/syrian-refugees-pack-for-the-crossing-to-europe-crisis

Cafodd yr erthygl hon ei hysbrydoli gan ddeunyddiau hyfforddi Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth berthnasol i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841